# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Archwiliadau ac asesiadau gwella*

### 20 Ymateb i adroddiadau adran 19

(1) Mae'r is-adrannau canlynol yn gymwys pan fo unrhyw adroddiad a gaiff awdurdod gwella Cymreig o dan adran 19(2)—
- (a) yn cynnwys argymhelliad o dan adran 19(1)(f) neu (g); neu
- (b) yn datgan o dan adran 19(1)(h) bod Archwilydd Cyffredinol Cymru o blaid cynnal arolygiad arbennig.

(2) Rhaid i'r awdurdod baratoi datganiad ynghylch—
- (a) unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r adroddiad; a
- (b) yr amserlen y mae'n ei chynnig ar gyfer cymryd y camau hynny.

(3) Rhaid i ddatganiad sy'n ofynnol o dan is-adran (2) gael ei baratoi—
- (a) cyn diwedd cyfnod o 30 o ddiwrnodau gwaith sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod yn cael yr adroddiad; neu
- (b) os yw'r adroddiad yn pennu cyfnod byrrach sy'n dechrau ar y diwrnod hwnnw, cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(4) Rhaid i'r awdurdod ymgorffori'r datganiad yn ei gynllun gwella ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

(5) Os bydd yr adroddiad yn argymell bod Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29, rhaid i'r awdurdod anfon copi o'r datganiad at Weinidogion Cymru—
- (a) cyn diwedd cyfnod o 30 o ddiwrnodau gwaith sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod yn cael yr adroddiad; neu
- (b) os yw'r adroddiad yn pennu cyfnod byrrach sy'n dechrau ar y diwrnod hwnnw, cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2010.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 20 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(6) At ddibenion yr adran hon, mae diwrnod gwaith yn ddiwrnod nad yw—

(a) yn ddydd Sadwrn nac yn ddydd Sul;

(b) yn Ddydd Nadolig nac yn Ddydd Gwener y Groglith; neu

(c) yn unrhyw ddydd sy'n wyl banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 yng Nghymru a Lloegr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 20 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

**I2** A. 20 mewn grym ar 1.4.2010 gan O.S. 2009/3272, ergl. 3(1), **Atod. 2**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2010.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 20 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.